

# Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol

DDRAFFT – 11 Ionawr 2021



# Cynnwys

---

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
-------------------	----------

---

<b>Maes dylanwad A</b>	<b>10</b>
------------------------	-----------

---

Ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol annibynnol	10
--	----

---

<b>Maes dylanwad B</b>	<b>11</b>
------------------------	-----------

---

Trawsnewid ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol: tystiolaeth, ymchwil, gwerthuso a throsi	11
---	----

---

<b>Maes dylanwad C</b>	<b>12</b>
------------------------	-----------

---

Hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau: asesu, gwiliadwriaeth ac ymyrryd	12
---	----

---

<b>Maes dylanwad D</b>	<b>16</b>
------------------------	-----------

---

Iechyd poblogaethau: galluogi, cynorthwyo a gwella canlyniadau iechyd pobl drwy gydol cwrs bywyd	16
---	----

---

<b>Maes dylanwad E</b>	<b>21</b>
------------------------	-----------

---

Hybu gwasanaethau iechyd cyhoeddus a hybu manau, amgylcheddau a diwylliannau iach	21
--	----

---

<b>Maes dylanwad F</b>	<b>24</b>
------------------------	-----------

---

Arwain a chydweithredu: o fuddsoddi i weithredu a lledaenu	24
--	----

---

<b>Geirfa</b>	<b>28</b>
---------------	-----------

---

# Cyflwyniad

---

Mae dyletswydd ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i adolygu'r safonau hyfedredd a bennir ganddo ar gyfer y proffesiynau mae'n eu cofrestru'n rheolaidd i sicrhau bod y safonau'n parhau'n gyfoes ac yn ateb y galw i amddiffyn y cyhoedd. Wrth adolygu'r safonau hyn, rydym wedi ystyried tystiolaeth newydd a'r newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas, ac mewn iechyd a gofal.

Bydd datblygu safonau hyfedredd newydd uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol (SCPHN) yn sicrhau fod ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol y dyfodol yn arwain, yn dylanwadu ac yn gwneud gwahaniaeth i bobl ac i wasanaethau iechyd cyhoeddus.

Cafodd y safonau drafft newydd hyn eu datblygu yn ystod pandemig byd-eang na welwyd ei debyg ac sy'n parhau i effeithio ar bobl, cymunedau a phoblogaethau ledled y byd. Yn y DU, fel mewn gwledydd eraill, nid yw Covid-19 wedi effeithio ar bob grŵp poblogaeth i'r un graddau. Mae anghydraddoldebau sy'n cael eu hachosi gan benderfyniadau iechyd wedi cynyddu'r risg o ganlyniadau andwyol oherwydd Covid-19. Mae'r pandemig hwn wedi amlygu a dwysau anghydraddoldebau sydd wedi bodoli ers amser a chanlyniadau iechyd gwaeth sy'n effeithio ar bobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn y DU. Mae'n briodol felly bod astudiaethau cynnar a dysgu yn sgil y pandemig Covid-19 wedi dylanwadu ac wedi cyfrannu at y sail dystiolaeth a oedd yn llywio'r safonau hyn.

## Rôl y nyrs iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif

Mae nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol (SCPHN) yn ymarferwyr annibynnol sy'n gymwys yn ddiwylliannol ac sydd wedi ymrwymo i wella iechyd pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd ymhlith cymunedau a phoblogaethau amrywiol y DU.

Byddant yn gweithio â phobl i atal salwch, i ddiogelu iechyd a hybu llesiant. Gan ddefnyddio sail dystiolaeth gref byddant yn arwain, yn dylanwadu ac yn cydweithio ag asiantaethau a sefydliadau eraill i wella ac ymwreiddio newidiadau cynaliadwy i iechyd a llesiant cyffredinol pobl yn eu cartrefi, yn y gymuned, mewn ysgolion ac yn y gweithle. Bydd SCPHN yn ymrwymo i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac i fod yn uchelgeisiol ar ran y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Byddant yn mynd ati i gyflawni [nodau datblygu cynaliadwy](#) sy'n hybu hawl pawb i fyw bywyd iach.

## Rôl ymwelydd iechyd SCPHN yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif

**Mae ymwelwyr iechyd** yn gweithio yn rheng flaen iechyd cyhoeddus. Maent mewn sefyllfa unigryw i gyrraedd pob plentyn yn eu cartref eu hunain, ac i fod yn gysylltiedig â'u teulu cyfan a'r gymuned. Maent yn meithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiried ag unigolion a theuluoedd, gan ddeall eu hanghenion a'u cryfderau i'w grymuso i gael dylanwad positif ar eu canlyniadau iechyd.

Mae nodweddion rhyngbersonol a sgiliau cyfathrebu ymwelwyr iechyd yn eu galluogi i feithrin perthnasoedd â rhieni a theuluoedd yn gyflym, i ddeall anghenion iechyd yn gynnar ac i ddarparu ymyriadau amserol, effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn partneriaeth â hwy. Maent yn darparu gwasanaeth cyffredinol sy'n sicrhau bod cymorth i blant a theuluoedd yn cael ei bersonoli, ei fod yn effeithiol, amserol a chymesur. Mae anghenion a llesiant y plentyn yn ganolog i'w gwaith bob amser.

Mae ymwelwyr iechyd yn defnyddio eu hannibyniaeth broffesiynol i addasu a theilwra eu hymateb i anghenion iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau a hynny o fewn cyd-destunau sy'n amrywiol ac yn newid. Maent yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau diwylliannol ac maent yn defnyddio gwybodaeth drylwyr am gymunedau lleol i ddatblygu perthnasoedd cymunedol cryf ac i roi teuluoedd mewn cysylltiad â'r adnoddau cymunedol sydd orau i ddiwallu eu hanghenion.

Mae ymwelwyr iechyd yn eiriolwyr dros degwch, cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a byddant yn defnyddio eu dylanwadu i herio arferion ac ymddygiadau gwahaniaethol. Maent yn deall effaith y penderfynyddion iechyd ehangach ac maent wedi ymrwymo i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy atal ac ymyrryd yn gynnar a hybu a gwella iechyd.

Maent yn arwain gwasanaethau sy'n cael eu hysgogi gan gleientiaid a thystiolaeth, ac sy'n cael eu dylanwadu gan bolisi, gyda chreadigrwydd a dyfeisgarwch, i werthuso'n barhaus effaith eu hymyriadau ar wella ansawdd gofal a chanlyniadau i deuluoedd. Maent yn cynyddu effaith y gwasanaeth drwy weithio o fewn system gydweithredol, gan gynnal a chydlynu gofal a chynnal dilyniant rhwng gwahanol wasanaethau ac asiantaethau. Maent yn mabwysiadu ac yn hyrwyddo technolegau newydd ac maent yn effeithiol wrth arwain newidiadau yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

## Rôl nyrsys iechyd galwedigaethol SCPHN yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif

Mae **nyrsys iechyd galwedigaethol** yn arwain ac yn gweithio mewn ystod o amgylcheddau gwaith a busnesau. Maent yn arwain gwasanaethau i wella iechyd a llesiant pobl yn eu gweithleoedd a thu hwnt. Gan weithio'n annibynnol, maent yn hybu iechyd ac yn diogelu'r gweithlu drwy sicrhau cydbwysedd iach rhwng gwaith a llesiant. Fel grŵp unigryw o weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol, maent yn helpu i atal salwch a chlefydau sy'n gysylltiedig â gwaith, ac i ddylunio gweithleoedd sy'n ddiogel, effeithlon a chynhwysol.

Mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill, arbenigwyr mewn diwydiant, cyflogwyr a chyflogeion i arwain mentrau iechyd yn y gweithle sy'n ymateb i anghenion unigolion a sefydliadau. Maent yn mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan ddata, gan lwyddo i gyfuno eu sgiliau nyrsio arbenigol â dealltwriaeth ehangach a phrofiad o'r sector unigryw maent yn gweithio ynddo i ymwreiddio mentrau iechyd mewn cynllunio sefydliadol ehangach. Mae hyn yn cael effaith bositif ar deuluoedd a chymunedau, gan helpu i fynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sy'n dylanwadu'n fawr ar alluoedd unigolion a llesiant cymdeithasol.

Drwy gymhwyso eu crebwyll proffesiynol a'u sgiliau busnes, mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn creu strategaethau arloesol ar gyfer gweithleoedd cynhwysol sy'n galluogi pobl â galluoedd amrywiol i gael eu cyflogi mewn modd cynhyrchiol.

Maent yn hyrwyddo'r angen am strategaethau iechyd a llesiant mewn gweithleoedd sy'n cydnabod effaith iechyd ar waith a gwerth gwaith i iechyd. Gan gydnabod gwerth poblogaeth weithio amrywiol, mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn annog ymagweddau sy'n [canolbwyntio ar yr unigolyn](#) sy'n rhoi sylw i anghenion gweithlu amrywiol.

Maent yn gyfryngau newid sy'n dylanwadu ar lefel strategol a diwydiant, gan feddwl yn eang ond gweithredu'n lleol, i greu gweithlu iach ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

## Rôl nyrsys ysgol SCPHN yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif

Mae **nyrsys ysgol** yn arwain gwasanaethau sydd â'r nod o wella iechyd a llesiant y boblogaeth oedran ysgol ac maent yn gallu darparu cymorth yn lleol i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysgol a chymunedol eraill.

Maent yn ymarferwyr a hyrwyddwyr annibynnol dros hawliau plant. Gan gydweithredu ar draws gwasanaethau iechyd, addysg ac eraill, ac fel rhan allweddol o wasanaeth iechyd cyhoeddus seiliedig ar dystiolaeth, mae nyrsys ysgol yn eirioli dros iechyd gwell i bob plentyn a pherson ifanc, gan ymdrechu i sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol, nad ydynt yn gwahaniaethu a'u bod yn hybu iechyd a llesiant.

Mae nyrsys ysgol yn deall y penderfynyddion iechyd ehangach ac maent wedi ymrwymo i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy gydol bywyd, drwy addysg iechyd, hybu iechyd ac ymyriadau cynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu uwch, mae nyrsys ysgol yn meithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiried â phlant a phobl ifanc, eu rhieni, gofalwyr a theuluoedd. Mae nyrsys ysgol yn gwrando ar blant a phobl ifanc.

Gan ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol, mae nyrsys ysgol yn darparu cymorth sy'n briodol o safbwynt diwylliannol ac ymyriadau cynnar sy'n hybu ffyrdd o fyw positif ac sy'n lleihau ymddygiadau sy'n cynnwys risgiau gormodol. Maent yn gwella ac yn hybu iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y boblogaeth oedran ysgol.

## Ynglŷn â'r safonau drafft hyn

Cafodd y safonau drafft hyn eu datblygu drwy broses faith a thrylwyr o adolygu tystiolaeth ac ymgysylltu â phobl o bob rhan o'r DU, gan gynnwys y cyhoedd, nyrsys, bydwagedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol, nyrsys ysgol, myfyrwyr, addysgwyr, cyflogwyr, cydweithwyr amlddisgyblaeth, sefydliadau proffesiynol, ymchwilyr, llunwyr polisi, ac elusennau a grwpiau eiriolaeth.

Maent yn adlewyrchu tystiolaeth o arferion gorau ar iechyd, llesiant, anghenion iechyd cyhoeddus, barn a hoffterau pobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau ehangach. Mae'r safonau drafft hyn yn cyd-fynd ag argymhellion safbwyntiau'r llywodraeth ar strategaeth iechyd cyhoeddus, polisiau a bwriadau ym mhob un o bedair cenedl y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Mae'r safonau hyn yn ystyried y newidiadau i'r cyd-destun y mae ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol yn gweithio ac yn ymarfer ynddo yn y DU heddiw. Maent yn arwydd o uchelgeisiau'r dyfodol i ddangos bod y rhai sydd wedi cofrestru fel SCPHN mewn sefyllfa gref i wneud gwahaniaeth i iechyd y cyhoedd a llesiant pobl o bob oedran, ac ym mhob cymuned a phoblogaeth.

Mae newidiadau positif yn y safonau drafft newydd hyn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cynnwys sut mae ymarferwyr SCPHN yn defnyddio sail dystiolaeth iechyd cyhoeddus gyfoes i arwain eu hymarfer, gan sicrhau eu bod yn flaenllaw wrth ddylanwadu ar newidiadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, i helpu pobl mewn tlodi, ac yn bwysig iawn, i ddarparu cymorth ac ymyriadau i'r rhai â'r angen mwyaf.

Mae heriau iechyd cyhoeddus i'w cael ym mhob rhan o gymdeithas, o'r pandemig gordewdra i'r cynnydd sylweddol yn nifer y bobl o bob oedran sydd mewn perygl o fyw â diabetes math dau. Hefyd, mae angen amddiffyn a diogelu'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed, ac i helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan salwch a'i effaith ar eu gallu i wneud dewisiadau am eu llesiant, a/ neu eu cyfranogiad mewn addysg blynyddoedd cynnar ac oedran ysgol neu waith gan gynnwys gweithio neu ddiweithdra.

Mae SCPHN mewn sefyllfa i annog pobl i wneud dewisiadau am eu hiechyd a'u llesiant meddyliol a chorfforol eu hunain. Maent yn adnabod eu cymunedau, eu hasedau a'r ardaloedd lle mae angen mentrau newydd. Drwy weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol, mae SCPHN yn weithwyr proffesiynol rheng flaen gwerthfawr sy'n gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau iechyd pobl, cymunedau a phoblogaethau.

## Sut i ddarllen y safonau drafft hyn

Mae'r safonau hyfedredd drafft yn y ddogfen hon yn pennu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau y mae nyrsys cofrestredig a bydwagedd yn mynd ymlaen i'w cyflawni er mwyn cefnogi a gofalu am bobl, cymunedau a phoblogaethau yn ystod eu bywydau mewn rolau nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol. Maent yn adlewyrchu'r hyn y gall y cyhoedd ddisgwyl y bydd ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol yn ei wybod ac yn gallu ei wneud i arwain, cydweithio, hybu, diogelu ac atal salwch drwy gydol eu bywyd.

### Mae'r safonau hyfedredd hyn yn cynnwys:

- **Safonau hyfedredd craidd** sy'n gymwys i **bob** maes o ymarfer SCPHN – ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol, ac maent wedi'u grwpio o dan chwe phennawd a elwir yn feysydd dylanwad, a;
- **Safonau hyfedredd maes penodol SCPHN** sy'n gymwys i **bob un o'r meysydd canlynol o** ymarfer SCPHN: ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol, ac maent wedi'u grwpio o dan bedwar o'r chwe maes dylanwad.

### Penawdau'r chwe maes dylanwad yw:

- Ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol annibynnol
  - **Safonau hyfedredd craidd sy'n gymwys i bob maes ymarfer SCPHN ar gyfer ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol**
- Trawsnewid ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol; tystiolaeth, ymchwil, gwerthuso a throsi
  - **Safonau hyfedredd craidd sy'n gymwys i bob maes ymarfer SCPHN ar gyfer ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol**
- Hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau: asesu, gwylidwriaeth ac ymyrryd
  - **Safonau hyfedredd craidd sy'n gymwys i bob maes ymarfer SCPHN a safonau hyfedredd maes penodol ar gyfer ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol**
- Iechyd poblogaethau: galluogi, cynorthwyo a gwella canlyniadau iechyd pobl drwy gydol eu hoes
  - **Safonau hyfedredd craidd sy'n gymwys i bob maes ymarfer SCPHN a safonau hyfedredd maes penodol ar gyfer ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol**
- Hybu gwasanaethau iechyd cyhoeddus a hybu manau, amgylcheddau a diwylliannau iach
  - **Safonau hyfedredd craidd sy'n gymwys i bob maes ymarfer SCPHN a safonau hyfedredd maes penodol ar gyfer ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol**

- Arwain a chydweithredu: o fuddsoddi i weithredu a lledaenu
- **Safonau hyfedredd craidd sy'n gymwys i bob maes ymarfer SCPHN a safonau hyfedredd maes penodol ar gyfer ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol**

Bydd y safonau hyfedredd hyn yn rhoi i nyrsys iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol ôl-raddedig newydd sy'n ymuno â'r proffesiwn yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar adeg cofrestru. Bydd ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN yn adeiladu ar yr wybodaeth hon a'u dealltwriaeth a'r sgiliau hyn wrth iddynt gael profiad ac wrth gyflawni eu cyfrifoldeb proffesiynol. Byddant yn dangos eu hymrwymiad i ddatblygu fel SCPHN yn y maes ymarfer SCPHN o'u dewis ac yn datblygu llwybr gyrfa, yn ymgysylltu ag addysg barhaus a'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd eu hangen i ail-ddilysu.

## Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)

Ymwelwyr Iechyd, Nyrsio Iechyd Galwedigaethol, Nyrsio mewn Ysgolion

Hyfedreddau craidd SCPHN	Hyfedreddau SCPHN sy'n benodol i'r maes
<b>A</b> Ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol awtonomaidd	
<b>B</b> Trawsnewid ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol: tystiolaeth, ymchwil, arfarnu a dehongli	
<b>C</b> Hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau: asesu, goruchwyllo ac ymyrryd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwelydd Iechyd</li> <li>• Nyrsio Iechyd Galwedigaethol</li> <li>• Nyrsio mewn Ysgolion</li> </ul>
<b>D</b> Iechyd y boblogaeth: galluogi, cefnogi a gwella canlyniadau iechyd pobl gydol eu hoes	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwelydd Iechyd</li> <li>• Nyrsio Iechyd Galwedigaethol</li> <li>• Nyrsio mewn Ysgolion</li> </ul>
<b>E</b> Hyrwyddo gwasanaethau iechyd cyhoeddus a hyrwyddo ardaloedd, amgylcheddau a diwylliannau iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwelydd Iechyd</li> <li>• Nyrsio Iechyd Galwedigaethol</li> <li>• Nyrsio mewn Ysgolion</li> </ul>
<b>F</b> Arwain a chydweithio: o fuddsoddi i weithredu a lledaenu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwelydd Iechyd</li> <li>• Nyrsio Iechyd Galwedigaethol</li> <li>• Nyrsio mewn Ysgolion</li> </ul>



Mae'r safonau hyfedredd hyn yn gymwys i'r holl ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN sydd wedi'u cofrestru â'r NMC. Dylid eu darllen ochr yn ochr â Gwireddu proffesiynoldeb: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, sy'n disgrifio ein disgwyliaidau o ran cyflwyno pob un o'r rhaglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC.


Mae'r safonau hyn yn gymwys i'r holl ddarparwyr addysg cymeradwy ac maent yn cael eu cyflwyno mewn tair rhan:

- [Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth](#)
- [Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr](#)
- Rhan 3: Safonau rhaglenni, sef y safonau sy'n benodol i bob rhaglen cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru

Rhaid i sefydliadau addysg gydymffurfio â'n safonau os ydynt am gael eu cymeradwyo i redeg unrhyw rhaglenni a gymeradwyir gan yr NMC. Gyda'i gilydd bwriad y rhaglenni hyn yw rhoi i sefydliadau addysg cymeradwy (AEI) a'u partneriaid dysgu ymarfer yr hyblygrwydd i ddatblygu dulliau addysgol arloesol ar gyfer ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN, a bod yn atebol am y ddarpariaeth leol a rheoli rhaglenni SCPHN ôl-gofrestru cymeradwy yn unol â'n safonau. Dangosir hyn yn y diagram isod.

## Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

## Safonau hyfedredd ar gyfer proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth



## Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 15(1) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn') yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd safon hyfedredd er mwyn ymuno â'r gofrestr, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 5(2) o'r Gorchymyn. Caiff y Safonau ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddi eu sefydlu'n unol â darpariaeth Erthygl 15(1) o'r Gorchymyn.

Mae Erthygl 15(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC sefydlu safonau hyfedredd sydd eu hangen i gael eu derbyn ar bob rhan o'r gofrestr ac ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol o dan y rhan honno o'r gofrestr. Cafodd y safonau hyfedredd eu sefydlu o dan y ddarpariaeth hon.

Gan fod safonau SCPHN yn safonau ôl-gofrestru, ni all unigolion ymuno â'r rhan SCPHN o'r gofrestr oni bai eu bod yn nyrsys neu fydwragedd cofrestredig ac wedi llwyddo i gyflawni holl ofynion eu rhaglen SCPHN a gymeradwywyd gan yr NMC. Dim ond y rhai hynny ar ein cofrestr all ddefnyddio teitl gwarchodedig nyrs iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol.

# Maes dylanwad A

## Ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol annibynnol

Mae **ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol** yn deall bod iechyd a mynediad at gymorth iechyd yn hawl dynol sylfaenol. Maent yn defnyddio'u hannibyniaeth broffesiynol i addasu a theilwra eu hymateb i anghenion iechyd a llesiant pobl a chymunedau o fewn cyd-destunau amrywiol ac sy'n newid yn y cartref, yr ysgol a'r gweithle. Maent yn deall safbwyntiau diwylliannol gwahanol ac maent yn eiriol ar ran ac yn diogelu'r bobl, y cymunedau a'r poblogaethau sydd fwyaf agored i niwed. Maent yn arloesol, yn greadigol, yn hybu llythrennedd iechyd ac yn manteisio ar y defnydd o dechnolegau newydd yn eu hymarfer o ddydd i ddydd.

### Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN cofrestredig yn gallu:

1. dangos y gallu i ymarfer gyda lefel uchel o annibyniaeth, entrepreneuriaeth ac arloesi fel nyrs iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol
2. defnyddio gwybodaeth estynedig am y cysylltiadau rhwng agendâu economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol byd-eang a chenedlaethol ac iechyd cyhoeddus i hyrwyddo a dylanwadu ar eu maes ymarfer eu hunain
3. cymhwyso'n hyderus y gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a llywodraethu, y polisiau a'r fframweithiau moesegol perthnasol ym mhob maes o ymarfer iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol, a gallu gwahaniaethu rhwng deddfwrfeydd datganoledig y DU
4. arwain wrth gymhwyso deddfwriaeth, canllawiau a chyngor ar nodau datblygu cynaliadwy, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol
5. dylanwadu ar hybu iechyd fel hawl dynol sylfaenol ac fel [gwerth cyffredin](#) drwy ymgysylltiad, cynhwysiant a chyfranogiad
6. gwneud penderfyniadau proffesiynol, a gweithio mewn amgylcheddau cymhleth, anghyfarwydd ac na ellir eu rhagweld, gan fynd ati'n rhagweithiol i nodi camau a datrysiadau a all fod â nifer o ffactorau rhyngweithiol ynghlwm wrthynt
7. dangos [cymhwysedd diwylliannol](#) a chodi llais yn erbyn diwylliannau ac ymddygiadau gwahaniaethol a gormesol, gan gynnwys rhai yn yr amgylchedd gweithio
8. dangos ymwybyddiaeth feirniadol o effaith [rhagfarn ddjarwybod](#) a chymryd camau i godi ymwybyddiaeth o ragfarn ddjarwybod a mynd i'r afael â'r mater
9. cydnabod yr angen ac arwain ar weithredu i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl, grwpiau a chymunedau, dylanwadu ar newid mewn polisi iechyd cyhoeddus ac arferion gorau

10. dangos y sgiliau rhifedd, llythrennedd, digidol a thechnolegol uwch sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl, cymunedau a'r boblogaeth ehangach, i sicrhau ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus arbenigol effeithiol
11. defnyddio rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau annibynnol ac atodol (V300), optimeiddio a chysoni meddyginiaethau yn ddiogel ac effeithiol.

## Maes dylanwad B

---

### Trawsnewid ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol: tystiolaeth, ymchwil, gwerthuso a throsi

Mae **ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol** yn lleoli, trafod, defnyddio, cynhyrchu a chymhwyso tystiolaeth, data a gwybodaeth sy'n ymdrechu i hybu iechyd ac atal salwch ac anabledd yn achos clefydau a chyflyrau nad ydynt yn drosglwyddadwy. Mi allant werthuso ymyriadau iechyd cyhoeddus i ddeall yn well yr hyn sy'n gweithio. Maent yn cynnig syniadau a chysyniadau newydd pan fydd angen arloesi i lywio a gwella iechyd a llesiant pobl drwy gydol eu hoes ac i ledaenu tystiolaeth rhaglenni ac ymyriadau.

#### Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN cofrestredig yn gallu:

1. asesu effaith a buddiannau polisiau iechyd lleol a chenedlaethol a pholisiau eraill ar iechyd a llesiant pobl, cymunedau a phoblogaethau
2. canfod, gwerthuso a gwneud defnydd medrus o ffynonellau tystiolaeth ac ymchwil niferus sy'n berthnasol i bobl, cymunedau a phoblogaethau i lywio ymarfer iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol
3. canfod bylchau mewn ymchwil, tystiolaeth a pholisi sy'n effeithio ar ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus a dylanwadu ar sut y gellir rhoi sylw i'r bylchau hynny
4. defnyddio a gwybod sut y gyfranogi mewn meysydd ymchwil newydd gyda thimau amlddisgyblaeth ac amlasiantaethol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus ac ymyriadau ar lefel cymuned a phoblogaeth
5. defnyddio data, ystadegau a gwybodeg dibynadwy i ategu polisiau a rhaglenni sy'n gwella canlyniadau iechyd i bobl, cymunedau a phoblogaethau
6. canfod bylchau mewn gwybodeg iechyd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus a strategaethau ymyrryd cenedlaethol a sut y gellir rhoi sylw i hyn drwy fireinio setiau data neu gydnabod yr angen am ragor o astudiaethau i lywio arferion gorau

7. arfarnu ymchwil epidemiolegol yn feirniadol ac arddangos defnydd ohono mewn ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth
8. cyfuno a chymhwysu gwybodaeth o ymchwil, gwerthusiadau ac arloesi byd-eang sy'n arwain at welliannau i iechyd pobl, cymunedau a phoblogaethau ac sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd
9. defnyddio gwyddorau iechyd cyhoeddus a nyrsio yn ymarferol ar lefel cymunedau a phoblogaethau a chefnogi dulliau arloesol i ddylanwadu ar gymhellion, dewisiadau ffordd o fyw ac ymddygiadau pobl
10. arfarnu'n feirniadol y dystiolaeth sy'n llywio ymagweddau arloesol tuag at raglenni iechyd cyhoeddus, gan gynnwys genomeg, a gwerthuso cynnydd a chanlyniadau
11. rhannu canlyniadau a gwersi a ddysgwyd drwy ymchwil a gwerthuso mewn ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus arbenigol yn lleol a chenedlaethol ac ar draws sectorau drwy brosesau proffesiynol ac adolygu gan gymheiriaid.

## Maes dylanwad C

---

### Hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau: asesu, gwylidwriaeth ac ymyrryd

Mae **ymwelwyr iechyd** mewn sefyllfa ddelfrydol i ganfod, i dynnu sylw at ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn sgil eu gallu i gyrraedd pob teulu a'u dealltwriaeth drylwyr o'r penderfynyddion ehangach sy'n effeithio ar iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol, ysbrydol ac emosiynol plant, rhieni, gofawyr a theuluoedd. Maent yn gweithio i gynnal hawliau dynol pawb maent mewn cysylltiad â hwy, gan eiriol ar ran y sawl sy'n agored i niwed neu na all siarad drostynt eu hunain.

Mae **nyrsys iechyd galwedigaethol** yn defnyddio eu gwybodaeth arbenigol i gydnabod gwerth gwaith i iechyd ac effaith iechyd ar waith. Maent yn arwain y broses o greu gwasanaethau nyrsio iechyd galwedigaethol sy'n diwallu anghenion gweithlu amrywiol, gan sicrhau bod iechyd a llesiant yn cael eu hybu a'u diogelu. Drwy ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad am y dylanwadau economaidd-gymdeithasol ehangach ar iechyd a gwaith, maent yn cynllunio ymyriadau sy'n addas ar gyfer y sectorau a'r sefydliadau penodol maent yn gweithio â hwy, gan gynnig dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae **nyrsys ysgol** yn cynnal hawliau plant a phobl ifanc, maent yn canfod ac yn rhoi sylw i anghydraddoldebau iechyd yn y boblogaeth oedran ysgol. Mae nyrsys ysgol yn defnyddio eu gwybodaeth arbenigol am benderfynyddion ehangach iechyd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant

corfforol, meddyliol, emosiynol ac ysbrydol i dynnu sylw at anghenion, risgiau a gwendidau ac i eiriol ar ran plant a phobl ifanc. Maent yn ystyried dynameg y cartref a'r cymhlethdodau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, maent yn helpu plant a phobl ifanc sy'n byw, dysgu a datblygu mewn amrywiaeth o wahanol amgylchiadau.

### **Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN cofrestredig yn gallu:**

1. dadansoddi'n feirniadol achosion anghydraddoldebau iechyd ac anghyfartaledd iechyd mewn cymunedau a phoblogaethau a chymryd camau priodol i liniaru eu heffaith ar bobl a theuluoedd
2. arddangos arweinyddiaeth dosturiol wrth gymhwyso hawliau dynol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i wella iechyd a llesiant pobl, cymunedau a phoblogaethau
3. gwerthfawrogi'r anghenion a'r heriau cyfreithiol, moesegol, moesol ac ysbrydol y gellir eu hwynebu wrth hybu iechyd poblogaeth, gan helpu i chwalu rhwystrau i alluogi pobl a theuluoedd i fyw eu bywydau i'w llawn potensial
4. asesu effaith cymhlethdod a chydafiachedd a'u heffaith ar bobl, cymunedau a phoblogaethau, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arwain ar ddulliau iechyd cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
5. datblygu, hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i addysgu unigolion am y risgiau y gallant hwy eu hunain ac eraill eu hwynebu wrth gam-drin tybaco, alcohol a sylweddau eraill neu ymddygiadau a all fod yn gaethiwus
6. cynnal, dehongli a gwerthuso asesiadau a sgrinio iechyd, gwylidwriaeth a gwiriadau proffilio, a rhaglenni imiwneiddio a brechu ar gyfer pobl, cymunedau a phoblogaethau
7. sicrhau mynediad cyfartal a hygyrch at wasanaethau drwy lythrennedd iechyd, cyfathrebu a rhwydweithio gwell
8. ymgynghori, gwranddo a helpu pobl, cymunedau a phoblogaethau wrth asesu a chynllunio ymyriadau iechyd cyhoeddus
9. defnyddio modelau, tystiolaeth a chysyniadau i gynllunio, cynnal a gwerthuso ymyriadau lefel poblogaeth i roi sylw i faterion iechyd cyhoeddus penodol
10. cymhwyso dealltwriaeth am benderfynyddion iechyd i ddatblygu ymyriadau iechyd cyhoeddus sy'n ymatebol a chynhwysol yn ddiwylliannol ar gyfer pobl, cymunedau a phoblogaethau
11. arwain ar ganfod pobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau agored i niwed a chymryd camau i'w helpu, eu hamddiffyn a'u diogelu a chydlynu gofal a chymorth brys amserol pan fydd angen
12. rhoi mentrau cenedlaethol wedi'u targedu ac ymyriadau lleol ar waith sydd wedi'u llunio i weithio yn erbyn salwch.

## Ymweliadau iechyd

### Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelydd iechyd SCPHN yn gallu:

1. dadansoddi'n feirniadol a chymhwyso gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth o benderfynyddion ehangach iechyd, cylchoedd o amddifadedd ac anghydraddoldebau iechyd sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n effeithio ar iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol plant, rhieni, gofalwyr a theuluoedd
2. asesu'n barhaus a bod yn hyfedr wrth addasu i wahanol amgylcheddau a sefyllfaoedd cymhleth er mwyn canfod ac eiriol ar ran y teuluoedd hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan ddiogelu bob amser lesiant plant ac eraill sydd mewn perygl
3. chwarae rôl bwysig mewn hyrwyddo iechyd meddwl ar gyfer rhieni, teuluoedd, babanod a phlant yn ystod y cyfnod amenedigol ac wrth asesu a chanfod salwch meddwl amenedigol yn gynnar, gan ddarparu gofal a chymorth pan yn briodol a hwyluso mynediad at wasanaethau arbenigol yn unol â lefel yr angen
4. hybu iechyd meddwl babanod a chanfod trallod mewn babanod yn gynnar, a darparu cymorth i deuluoedd i'w galluogi i ymateb i anghenion eu baban
5. cychwyn ymyriadau priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu perthnasoedd iach a lleihau risg o drais domestig, cam-drin plant a mathau eraill o gamdriniaeth yn y teulu drwy ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth am berthnasoedd iach, epidemioleg trais a cham-drin domestig ac effaith gwrthdaro rhwng rhieni ar ddatblygiad blant
6. defnyddio eu crebwyll proffesiynol i arsylwi, adnabod ac ymateb i arwyddion o gam-drin ac esgeulustod mewn plant, pobl ifanc neu oedolion.

## Nyrsio iechyd galwedigaethol

### Ar adeg cofrestru, bydd y nyrs iechyd galwedigaethol SCPHN yn gallu:

1. cyfuno eu gwybodaeth arbenigol a'u profiad i arfarnu effaith materion economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol ar waith ac iechyd i roi ymyriadau iechyd galwedigaethol ar waith
2. arwain gwasanaeth iechyd galwedigaethol sy'n agored, cyfannol, cynhwysol ac ymatebol i bryderon economaidd-gymdeithasol ehangach gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i ddiogelu a cham-drin o fewn a'r tu allan i'r gweithle
3. gwerthuso'r berthynas rhwng gwaith, bywyd, iechyd corfforol a meddyliol a salwch i arwain ar dulliau sefydliadol rhagweithiol i hybu a diogelu iechyd a llesiant o fewn a'r tu allan i'r gweithle
4. arwain y gwaith o ddatblygu, cyflawni a gwerthuso gwasanaethau iechyd galwedigaethol cynhwysol, aml-swyddogaeth sy'n diwallu anghenion amrywiol cyflogeion a sefydliadau, gan fabwysiadu dull cwrs bywyd.

## Nyrsio ysgol

### Ar adeg cofrestru, bydd y nyrs ysgol SCPHN yn gallu:

1. defnyddio gwybodaeth arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghydraddoldeb a phobl agored i niwed yn y gymuned ysgol, canfod y rhai sydd angen cymorth a rhai sydd mewn perygl
2. cysylltu â, diogelu a blaenoriaethu cymorth i'r plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf, uwchgyfeirio pryderon a chynnig arbenigedd arbenigol ar gyfer llwybrau diogelu ac amddiffyn plant o fewn a'r tu allan i amgylchedd yr ysgol
3. gwerthuso effaith cylchoedd dibyniaeth a digwyddiadau andwyol rhwng y cenedlaethau ar blant a phobl ifanc a'r cyfleoedd a'r ffactorau amddiffynnol a ddaw yn sgil help ac ymyriadau cynnar
4. defnyddio gwybodaeth arbenigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth am ddiogelu, galluedd meddyliol, cydsyniad a chyfrinachedd ar gyfer plant a phobl ifanc i arfarnu'n feirniadol, myfyrio a rheoli heriau a gwrthdaro posibl sy'n gysylltiedig â chydsyniad a chyfrinachedd
5. meithrin perthnasoedd positif a hwyluso cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol, cymhwysu gwybodaeth arbenigol am effaith bosibl rhagfarn ddjarwybod a thybiaethau a wna pobl am blant a phobl ifanc, gan gynnwys rhai â chyflyrau tymor hir a chymhleth, anabledau a niwroamrywiaeth
6. arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o hunaniaeth a sut i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hunaniaeth, gan ystyried ffactorau sy'n dylanwadu ar hunaniaeth, gan gynnwys rhyw, rhywedd, rhywioldeb, ethnigrwydd, diwylliant statws economaidd-gymdeithasol a rhyngblethedd
7. gwerthuso a chanfod bylchau yn y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng nghymuned yr ysgol sy'n byw â chyflyrau tymor hir, anghenion cymhleth ac anabledau neu rai heb ddiagnosis a chynyddu mynediad a chymorth yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd.



# Maes dylanwad D

## Iechyd poblogaethau: galluogi, cynorthwyo a gwella canlyniadau iechyd pobl drwy gydol cwrs bywyd

Mae gan **ymwelwyr iechyd** rôl flaenllaw i ofalu bod iechyd a llesiant corfforol, cymdeithasol meddyliol, ysbrydol ac emosiynol plant, rhieni, gofalwyr, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau yn cael ei gynnal, ei wella a'i ddiogelu. Maent yn deall ac yn cymhwysu gwybodaeth am genomeg, cwrs bywyd a datblygiad dynol. Mae hyn yn cynnwys trywydd datblygiad plant a phrosesau addasu, ac anatomi, niwroddatblygiad, ffisioleg ac epigeneteg y newydd-anedig.

Maent yn helpu'r rhai maent yn ymgysylltu â hwy i wneud penderfyniadau a dewisiadau ar sail gwybodaeth, gan sicrhau bob amser bod hawliau a llesiant y plentyn yn cael eu gwarchod a'u diogelu. Maent yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu deialog agored ac ystyrlon â theuluoedd i ddatblygu perthnasoedd sy'n seiliedig ar gyd-ymddiried ac maent yn defnyddio eu sgiliau asesu a chyfathrebu uwch i asesu anghenion ac i flaenoriaethu cymorth yn seiliedig ar risg. Maent yn asesu anghenion iechyd o fewn cymunedau lleol ac yn defnyddio eu gwybodaeth am [asedau cymunedol](#) i wella mynediad at wasanaethau priodol ac i ddiogelu a hybu iechyd drwy amrywiaeth o ymyriadau gyda'r nod o wella iechyd y gymuned a'r boblogaeth.

Mae **nyrsys iechyd galwedigaethol** yn defnyddio eu gwybodaeth arbenigol a'u crebwyll proffesiynol i ddehongli deddfwriaeth ac egwyddorion diwydiant i ddatblygu strategaethau gweithleoedd cynhwysol sy'n galluogi pobl o bob gallu i barhau'n gynhyrchiol yn eu gwaith. Maent yn defnyddio dulliau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth i ddylunio gwasanaethau iechyd galwedigaethol sy'n ychwanegu gwerth i gyflogeion a chyflogwyr.

Mae **nyrsys ysgol** yn gallu defnyddio eu gwybodaeth arbenigol am ddatblygiad plant a phobl ifanc a chymhwysu'r ddealltwriaeth honno i wella canlyniadau iechyd. Mae nyrsys ysgol yn gweithio â phlant a phobl ifanc, drwy gydol eu blynyddoedd ffurfiannol. Gan ddefnyddio ymyriadau oed priodol mae nyrsys ysgol yn helpu ac yn grymuso plant a phobl ifanc yn eu dewisiadau bywyd ac maent yn diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sy'n agored i niwed.

### Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN cofrestredig yn gallu:

1. adnabod, gwerthuso'n feirniadol a monitro tueddiadau mewn strategaethau a rhaglenni byd-eang a chenedlaethol ar gyfer ymyriadau ataliol a hybu iechyd i lywio ymarfer iechyd cyhoeddus arbenigol yn lleol ac yn fyd-eang
2. gwerthfawrogi a defnyddio asedau cymunedol i hybu iechyd a llesiant positif pobl a chymunedau
3. mewn partneriaeth â phobl, mabwysiadu dull cwrs bywyd wrth asesu anghenion iechyd cyhoeddus pobl, lleoedd, cymunedau a phoblogaethau

4. grymuso pobl, cymunedau a phoblogaethau i gysylltu'n effeithiol â mentrau, rhwydweithiau cymorth, asedau cymunedol, rhaglenni ac adnoddau lleol sy'n hybu eu hiechyd a'u llesiant
5. cymhwyso'n fedrus eu gwybodaeth am y gwyddorau ymddygiadol, seicolegol a chymdeithasol mewn iechyd poblogaethau, cymunedau ac ymarfer iechyd cyhoeddus arbenigol sy'n cryfhau perthnasoedd therapiwtig cydweithredol sydd wedi'u seilio ar gryfder
6. defnyddio dulliau sy'n briodol yn ddiwylliannol, yn seiliedig ar dystiolaeth i asesu, cynorthwyo, monitro ac atgyfeirio'n briodol at wasanaethau arbenigol
7. cymhwyso'n feirniadol eu gwybodaeth am boblogaethau, lleoedd, cymunedau a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd i lywio meysydd allweddol o ymarfer iechyd cyhoeddus arbenigol
8. mewn partneriaeth â chymunedau, datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer cymunedau a phoblogaethau penodol i gyflawni canlyniadau iechyd cyhoeddus
9. asesu statws iechyd a llythrennedd iechyd poblogaethau a'u penderfynyddion iechyd cysylltiedig ar draws cwrs bywyd
10. arwain a chyfrannu at bolisi ac adrodd ar ffactorau amgylcheddol, [strwythurol-gymdeithasol](#), ac ymddygiadau sy'n effeithiol ar iechyd poblogaethau ar hyd cwrs bywyd
11. defnyddio data ac arsylwi i werthuso effeithiolrwydd a derbynioddeb gwasanaethau sy'n ymdrechu i wella canlyniadau iechyd y defnyddwyr a fwriadwyd, a gallu tynnu sylw at unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud iddynt.

## Ymweliadau iechyd

### Ar adeg cofrestru, ymwelydd SCPHN iechyd yn gallu:

1. cymhwyso gwybodaeth arbenigol a gwneud defnydd medrus o ddulliau a ddilyswyd i gynnal asesiadau iechyd cyfannol ac adolygiadau o ddatblygiad wedi'u rhaglennu, gweithio mewn partneriaeth â rhieni i hybu iechyd ac i ganfod pryderon sy'n dod i'r amlwg ac sy'n bod eisoes gan gynnwys bod yn agored i niwed ac anghydraddoldeb, a hwyluso a blaenoriaethu cymorth neu ymyriadau cynnar i'r plentyn a'r teulu fel bydd yn briodol
2. asesu a gwneud diagnosis o arwyddion cynnar o batrymau annodweddiadol mewn datblygiad neu anomaledau arwyddocaol sy'n debygol o arwain at anabledau, ac anghenion neu risgiau emosiynol neu iechyd, a darparu canllaw sy'n rhagweld neu ymyriad wedi'u dargedu sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth ac wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer amgylchiadau ac anghenion unigolion a theuluoedd
3. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i asesu, ailasesu ac arfarnu effaith newidiadau mewn amgylchiadau neu berthnasoedd ar iechyd a llesiant plant a theuluoedd ac addasu cymorth ar sail hynny, gan gydnabod anghenion y teulu cyfan wrth flaenoriaethu cymorth ar sail risg ac angen

4. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i hybu, addysgu a chefnogi, perthnasoedd ymatebol rhwng rhieni a'u plant drwy gymhwyso gwybodaeth arbenigol am ddatblygiad emosiynol cynnar, damcaniaethau a modelau ymlyniad ac effeithiau perthnasoedd positif a pharhaus rhwng rhieni a phlant
5. gwerthuso effaith trawma ar ddatblygiad plant a sut maent yn addasu i'r effeithiau hynny, a gweithio mewn partneriaeth â phlant a'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan drawma i'w gwneud yn fwy cydnherth
6. cymhwyso'n feirniadol wybodaeth arbenigol am anatomi, niwroddatblygiad, ffisioleg ac epigeneteg bwydo babanod, gan gynnwys goblygiadau bwydo babanod i iechyd y plentyn a'r fam, datblygiad corfforol a chymdeithasol-emosiynol y plentyn a phatrymau ymddygiad diweddarach
7. gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd i ganfod risgiau i bwysau iach mewn plentynod, gan gynnwys gordewdra ymhlith plant, diffyg maethiad, a delwedd o'r corff, hyrwyddo maethiad i'r teulu a'u helpu i wneud dewisiadau positif o ran eu ffordd o fyw, ac atgyfeirio at wasanaethau eraill yn ôl risg ac angen
8. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i hybu buddiannau dysgu sgiliau byw i blant yn amgylchedd y cartref
9. cynorthwyo rhieni, teuluoedd a phlant sy'n cael diagnosis sy'n newid neu'n cyfyngu ar fywyd yn y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ar ôl sgrinio amenedigol, ac mewn partneriaeth â hwy mabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau a grymuso i ymateb i anghenion sy'n amlygu eu hunain, a all fod yn rhai cymhleth
10. defnyddio gwybodaeth arbenigol i hwyluso mynediad at ystod o adnoddau priodol ac effeithiol sydd ar gael i helpu plant, rhieni a theuluoedd ag anghenion ychwanegol o ganlyniad i salwch meddwl, anabledau dysgu neu anabledd corfforol, a/neu sydd â chyflyrau lluosog, cymhleth, tymor hir
11. meithrin hunanhyder mewn rhieni, gofalwyr a theuluoedd drwy eu cynghori ar adnabod a lleddfu symptomau, a thrwy hynny eu galluogi i reoli mân salwch ac anafiadau'n effeithiol a hyderus, a hefyd i wneud diagnosis ac atgyfeirio achosion ymlaen am driniaeth bellach os bydd angen
12. darparu cymorth a chyngor arbenigol, seiliedig ar dystiolaeth ar iechyd rhywiol ac atgenhedlol plant, glasoed ac oedolion, ac atal cenhedlu
13. darparu cymorth a chyngor arbenigol, seiliedig ar dystiolaeth i rieni, plant a theuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn camesgoriad, marw-enedigaeth neu farwolaeth rhiant.

## Nyrsio iechyd galwedigaethol

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs iechyd galwedigaethol SCPHN yn gallu:

1. defnyddio tystiolaeth i gyfiawnhau effaith a gwerth gwasanaethau iechyd galwedigaethol i gyflogeion, sefydliadau a'r boblogaeth ehangach
2. cymhwyso gwybodaeth arbenigol wrth wneud penderfyniadau proffesiynol i ddehongli a chynghori ar gyfraith achosion, deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac egwyddorion hylendid galwedigaethol, rheolaethau peirianeg ac ergonomeg
3. dadansoddi'n feirniadol sut mae clefydau, salwch a namau'n gweithredu fel rhwystrau rhag dechrau, cynnal neu ddychwelyd i waith ac effaith hyn ar bob agwedd ar fywyd
4. datblygu strategaethau cynhwysol sy'n galluogi dulliau arloesol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer cyflogeion a all fod angen addasiadau i'w gwaith am resymau iechyd
5. datblygu strategaethau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth i gynorthwyo a galluogi cyflogeion â chyflyrau lluosog neu dymor hir i gael gwaith cynaliadwy, cynhyrchiol a boddhaus
6. darparu cyngor iechyd galwedigaethol arbenigol, wedi'i bersonoli ar addasiadau gwaith i gyflogeion a chyflogwyr sy'n ystyried effaith diagnosis, therapiau, ymyriadau, meddyginiaethau a thriniaethau.

## Nyrsio ysgol

### Ar adeg cofrestru, nyrs ysgol SCPHN yn gallu:

1. dadansoddi'n feirniadol a chymhwyso gwybodaeth am ddatblygiad [bioseicogymdeithasol](#), moesol ac ysbrydol plant a phobl ifanc yn ystod gwahanol gamau allweddol cwrs bywyd
2. gwerthuso sut mae oedran a datblygiad bioseicogymdeithasol yn dylanwadu ar sgiliau cyfathrebu plant a phobl ifanc, defnyddio technegau cyfathrebu uwch sy'n hwyluso perthnasoedd positif, seiliedig ar ymddiried â phlant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a theuluoedd
3. gwerthuso sut mae dylanwadau bioseicogymdeithasol ym mlynnyddoedd y glasoed yn effeithio ar ymddygiad, sgiliau byw a phontio i oedolaeth, gan gydnabod y glasoed fel cam penodol o gwrs bywyd
4. asesu effaith cyfnodau pontio allweddol ar blant a phobl ifanc gan gynnwys dechrau a gadael ysgol, newid darparwr gofal, salwch a phrofedigaeth, a helpu plant a phobl ifanc drwy ymyriad seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu ymddygiadau y gallant eu hunan-reoli
5. defnyddio ystod o ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth i helpu cyfnodau pontio'r boblogaeth oedran ysgol sy'n dangos sut mae cydweithredu a gwybodaeth broffesiynol a sgiliau'n gallu cael effaith positif ar bontio diogel i oedolaeth

6. optimeiddio ymddygiadau positif mewn rhieni, gofalwyr, teuluoedd a chyfoedion a, thrwy [ymyriadau seiliedig](#) ar dystiolaeth, ennyn ymddiried a hunan-ffeithiolrwydd i wella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
7. defnyddio arsylwadau seiliedig ar dystiolaeth, asesiadau a chrebwyll proffesiynol i leihau'r risg o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a helpu ac arwain plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr mewn gwaith atal a lliniaru
8. defnyddio arsylwi medrus, asesiadau a chrebwyll proffesiynol i arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lythrennedd emosiynol, gallu gwybyddol, llesiant a datblygiad sgiliau cydnerthedd plant a phobl ifanc
9. defnyddio crebwyll proffesiynol i ganfod plant a phobl ifanc sy'n profi hwyliau isel a gorbryder drwy asesiadau ac ymyriadau cynnar er mwyn hybu iechyd emosiynol a meddyliol a llesiant
10. gwerthuso sut mae crebwyll proffesiynol ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth yn helpu plant a phobl ifanc i ystyried yr effeithiau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dewisiadau ymddygiad penodol sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol, alcohol/sylweddau, trais, cam-fanteisio, gangiau a chysylltiad posibl â'r system cyfiawnder ieuencid
11. gwerthuso effeithiau trawma ar ddatblygiad ac addasiad plant a phobl ifanc a defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u llywio gan drawma i asesu, cynorthwyo, monitro, a defnyddio crebwyll proffesiynol wrth wneud penderfyniadau i atgyfeirio at wasanaethau arbenigol
12. galluogi a chynorthwyo mentora gan gyfoedion seiliedig ar dystiolaeth rhwng plant a phobl ifanc i help datblygiad ymddygiadau positif a sgiliau dylanwadu ymhlith plant a phobl ifanc
13. helpu a chyfeirio plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a theuluoedd i fanteisio ar grantiau, cymorth ariannol a gwasanaethau ac adnoddau lleol eraill i ddatblygu hunan-eiriolaeth, galluogrwydd, cyfleoedd a chymhellion i ddylanwadu ac i ddefnyddio cyfleusterau/ asedau yn y gymuned.

# Maes dylanwad E

## Hybu gwasanaethau iechyd cyhoeddus a hybu mannau, amgylcheddau a diwylliannau iach

Mae **ymwelwyr iechyd** yn chwilio am gyfleoedd i hybu a gwella gwasanaethau ymwelwyr iechyd ac ansawdd y gofal a ddarperir i blant, rhieni, gofalwyr a theuluoedd gan eu gwasanaethau. Maent yn hybu amgylcheddau iach i fabanod a phlant i dyfu ynddynt yn ogystal ag agweddau a diwylliannau gweithio sy'n cydnabod ac yn parchu natur unigol unigryw pob cartref ac uned deuluol.

Mae **nyrsys iechyd galwedigaethol** yn rhoi lle canolog i iechyd a llesiant yn nyluniad swyddi a strategaethau gweithleoedd. Gyda'u cyfraniadau arbenigol maent yn helpu i ymwreiddio mentrau iechyd a llesiant cyflogaion fel rhan o'r cylch cynllunio busnes, gan arwain at strategaethau sy'n amgylcheddol gadarn ac yn uchelgeisiol. Maent yn cydnabod effaith technolegau newydd a rhai sy'n datblygu ar dechnolegau harneisio gwaith i wella cyfranogiad mewn gwaith i bawb.

Mae **nyrsys ysgol** yn gweithio ag addysgwyr ac awdurdodau ac mewn cymunedau lleol i hybu amgylcheddau, mannau a diwylliannau iach. Maent yn cydnabod bod ffactorau cyd-destunol yn cael effaith ar brofiad unigolion o fywyd. Mae nyrsys ysgol yn ymdrechu'n barhaus i wella gwelededd eu gwasanaeth i sicrhau ei fod yn hygyrch i blant a phobl ifanc.

### Ar adeg cofrestru, bydd ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN cofrestredig yn gallu:

1. arfarnu'n feirniadol yr hyn sy'n gwella diwylliannau'r cartref, y gymuned a'r gweithle ac amgylcheddau a defnyddio hyn i wella iechyd a llesiant pobl a chymunedau yn y mannau lle maent yn byw, dysgu a gweithio
2. arfarnu'n feirniadol y defnydd o dechnolegau newydd a chynorthwyol a fydd yn helpu pobl wrth wneud dewisiadau ynghylch eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ac i ddefnyddio gwasanaethau a fydd yn dylanwadu ar iechyd pobl, cymunedau a phoblogaethau
3. arddangos meddwl busnes ac ariannol proffesiynol wrth ddatblygu a chyflwyno achosion busnes sy'n creu buddsoddiadau sy'n newid a rhoi gwerth am arian
4. teilwra rhaglenni cenedlaethol neu gomisiynu gwasanaethau newydd sy'n hybu diwylliannau, amgylcheddau ac ymddygiadau iach i'w gweithredu'n lleol
5. arwain a chefnogi diwylliant dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cydweithwyr, ac â thimau rhyngddisgyblaethol ac aml-asiantaeth
6. hyrwyddo ac arwain diwylliannau iechyd cyhoeddus effeithiol mewn gweithleoedd sydd o fudd i bobl a chymunedau

7. hybu iechyd cyhoeddus drwy bennu nodau datblygu cynaliadwy a pharatoi i weithredu ar risgiau i'r amgylchedd
8. diogelu iechyd cyhoeddus drwy gyflwyno rhaglenni gywiadwriaeth clefydau trosglwyddadwy, atal a rheoli heintiau, gan gynnwys rhaglenni imiwneiddio a brechu
9. gwybod sut i asesu a rheoli digwyddiadau ac achosion mawr gan gynnwys halogi a chlefydau trosglwyddadwy yn lleol ac ar draws ffiniau ehangach
10. gwybod sut i ganfod, dadansoddi'n feirniadol a rheoli risgiau a pheryglon newydd a pharhaus i iechyd ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang
11. cynllunio ar gyfer y posibilrwydd o argyfyngau a phandemigau i iechyd y boblogaeth drwy roi sylw i'r risg uniongyrchol ac ehangach, effeithiau a [hierarchaeth rheolaethau](#) ac ar iechyd a llesiant a darpariaeth gwasanaethau.

## Ymwelwyr iechyd

### Ar adeg cofrestru, bydd ymwelydd iechyd SCPHN yn gallu:

1. gweithio â rhieni a gofalwyr i hyrwyddo diogelwch plant, lleihau ymddygiadau risg a gwella ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau risg o ran oedran a cham datblygiad y plentyn
2. parchu angen rhieni a gofalwyr am annibyniaeth a rheolaeth gan ddangos sensitifrwydd tuag at ystod eang o agweddau, credoau, disgwyliadau a dulliau rhianta, a thrwy ddiogelu llesiant y plentyn bob amser
3. dangos sensitifrwydd a pharch at breifatrwydd wrth asesu a yw sefyllfa ac amgylchiadau cartref y plentyn neu'r teulu'n briodol i hwyluso ac annog trafodaeth agored ac i ddatgelu materion personol
4. gwerthuso anghenion ac asedau iechyd cymunedol a gwella ymarfer drwy broffilio cymunedol, cyfuno a chymhwyso gwybodeg data a thechnegau eraill
5. datblygu strategaethau ymweliadau iechyd cynaliadwy ac arloesol gyda nodau tymor hir a gwerthusiadau sy'n gwneud cyfraniad effeithiol at [ymyriadau cymhleth seiliedig ar le](#), sy'n diwallu gofynion archwilio mewnol ac allanol.

## Nyrsio iechyd galwedigaethol

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs iechyd galwedigaethol SCPHN yn gallu:

1. datblygu strategaethau iechyd galwedigaethol cynaliadwy, wedi'u seilio ar ddata gyda nodau tymor byr, canolig a hir i wella iechyd a llesiant cyflogeion, sy'n cael eu hymgorffori fel rhan o'r cylch gwella busnes
2. rhoi pwyslais ar gynhwysiant ac arloesi mewn dylunio swyddi i arwain, gwella ac arloesi i fynd i'r afael â pheryglon i iechyd drwy ddileu, lliniaru a rheoli
3. arwain yr ymateb sefydliadol i ddull diogel, priodol ac sy'n hyfyw yn economaidd tuag at reoli gwastraff clinigol, rheoli heintiau a lleihau effaith llygredd amgylcheddol ar iechyd a llesiant
4. archwilio'n feirniadol y defnydd o hierarchaeth rheolaethau i reoli risgiau i iechyd, diogelwch a llesiant yn y gweithle
5. arfarnu a rhagweld effaith technoleg newydd a thechnoleg sy'n datblygu i wella ymarferoldeb gwaith yn awr ac yn y dyfodol
6. hwyluso addasiadau yn y gweithle a fydd yn galluogi cyfranogiad ehangach pobl mewn gwaith, gan ddefnyddio technolegau cynorthwyo sy'n rhoi pwyslais ar iechyd wrth dylunio swyddi
7. gwerthuso effaith ail-ddylunio swyddi a bod heb waith ar iechyd a llesiant pobl
8. arfarnu'n feirniadol a defnyddio technolegau cynorthwyo, gan gydnabod eu heffaith amrywiol bosibl ar waith ac iechyd unigolion.

## Nyrsio ysgol

### Ar adeg cofrestru bydd nyrs ysgol gofrestredig yn gallu:

1. defnyddio proffilio cymunedol a phoblogaeth i ganfod ac asesu anghenion cymunedau, a helpu datblygiadau diwylliannol a chymunedol cydweithredol sy'n gwella iechyd a llesiant y boblogaeth oedran ysgol
2. dylunio ac arwain ymgyrchoedd addysg iechyd a hybu iechyd lleol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus ar gyfer y boblogaeth oedran ysgol
3. codi ymwybyddiaeth o effaith anfantais economaidd gymdeithasol a thlodi digidol a gweithio ag eraill i hwyluso newidiadau mewn polisi a fydd yn helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial
4. edrych ar y profiadau bywyd sy'n effeithio ar ymddygiad, iechyd a llesiant, plant a phobl ifanc, mynnu bod anghenion plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill ac wrth gynllunio ymyriadau i wella iechyd a llesiant y boblogaeth oedran ysgol.



# Maes dylanwad F

## Arwain a chydweithredu: o fuddsoddi i weithredu a lledaenu

Mae **ymwelwyr iechyd** yn ymgymryd â rôl arweiniol wrth ddarparu a chydlynu gofal i fabanod, plant, rhieni, gofawyr a theuluoedd, yn ogystal â rheoli llwythi achos a blaenoriaethu wrth ddarparu gwasanaethau ymwelwyr iechyd. Maent yn hyrwyddo cydweithredu, nid yn unig o ran arwain a gweithio mewn timau aml-ddisgyblaethol a sicrhau symud esmwyth rhwng gwasanaethau, ond hefyd drwy weithio mewn partneriaeth â theuluoedd, cymunedau a phoblogaethau i ddarparu gwasanaeth ymwelwyr iechyd cyffredinol diogel, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion corfforol, cymdeithasol, meddyliol, ysbrydol ac emosiynol pawb maent mewn cysylltiad â hwy.

Mae **nyrsys iechyd galwedigaethol** yn arweinyddion gwasanaethau, gyda'r gallu i ddylanwadu ar lefel polisi a strategaeth. Maent yn cynnig gwybodaeth a sgiliau nyrsio unigryw, gan eu cyfuno â sgiliau meddwl busnes i gynllunio ymyriadau galwedigaethol sydd wedi'u teilwra i ofynion penodol y cyflogaeth a'r sefydliadau maent yn gweithio â hwy.

Mae **nyrsys ysgol** yn arwain gwasanaethau sy'n blaenoriaethu ac yn rhoi'r agenda iechyd cyhoeddus ar waith ar gyfer y boblogaeth oedran ysgol, gan gydweithredu â phlant a phobl ifanc, rhieni, gofawyr, teuluoedd ac addysgwyr i sicrhau bod mentrau iechyd cyhoeddus yn cael ei lledaenu ymhlith y boblogaeth leol. Mae nyrsys ysgol yn eiriol ar ran plant a phobl ifanc ac maent yn hyrwyddo gwasanaethau cyffredinol diogel ac effeithiol.

### Ar adeg cofrestru, bydd ymwelwyr iechyd, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys ysgol SCPHN cofrestredig yn gallu:

1. hybu gwasanaethau iechyd cyhoeddus sy'n hyrwyddo ac yn gwella iechyd a llesiant pobl, cymunedau a phoblogaethau
2. arwain timau sy'n effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus, ar eu pen eu hunain ac mewn cydweithrediad ag eraill
3. dylanwadu ar ddatblygiad polisiau a chynllunio strategaethau sy'n myned i'r afael ag anghenion iechyd ac sy'n datblygu dulliau i atal a rheoli risgiau
4. monitro ac adrodd ar ganlyniadau gweithredu strategaethau a pholisiau a gwneud argymhellion ar gyfer gwella gan gynnwys newidiadau mewn comisiynu
5. gwerthuso gofynion ac effeithiolrwydd gwasanaethau a gallu triongli mesuriadau canlyniadau archwiliadau, methodolegau gwelliant parhaus, llywodraethu, rheoli risg a pherfformiad
6. arwain a chefnogi diwylliant o fyfyrion beirniadol a datblygiad proffesiynol parhaus mewn ffordd dosturiol sy'n hybu dysgu ar lefel timau a rhyng-ddisgyblaethol

7. datblygu cynghreiriau a phartneriaethau sy'n annog cydweithredu a rhannu syniadau a datrysiadau newydd, a gallu cytuno ar amcanion a blaenoriaethau a rennir
8. bod yn llysgennad, delfryd ymddwyn ac arweinydd tosturiol mewn nyrsio iechyd cyhoeddus i annog, dylanwadu a chyflawni newid sy'n gwella canlyniadau iechyd ac sy'n cryfhau llesiant y bobl a'r cymunedau a wasanaethir
9. defnyddio ystod o sgiliau cyfathrebu uwch â phobl, cymunedau, cyfoedion a chydweithwyr rhyngddisgyblaethol ac amlasiantaethol gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio technolegau digidol ac amgylcheddau rhithiol ac o bell
10. cyfleu gwybodaeth iechyd cyhoeddus syml a chymhleth sydd wedi'i theilwra ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd cymunedol a phoblogaeth
11. herio a pherswadio ar lefelau cyfoedion a strategol ar faterion iechyd cyhoeddus sy'n effeithio ar bobl, cymunedau a phoblogaethau.

## Ymwelwyr iechyd

### Ar adeg cofrestru, ymwelydd iechyd SCPHN yn gallu:

1. cymhwysu sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol lefel uchel i feithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiried â phob teulu mewn ffordd sy'n parchu eu galluoedd, eu blaenoriaethau a'u gwerthoedd
2. arwain dulliau creadigol, hyblyg i ymgysylltu a chydweithredu â rhieni a gofalwyr mewn rhaglenni hybu iechyd plant, gan gynnwys cynghori a chynorthwyo wrth wneud penderfyniadau
3. arwain trafodaethau a gwneud penderfyniadau ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill ynghylch atgyfeirio, cynorthwyo plant a theuluoedd lle mae pryderon ynglŷn â llesiant y plentyn, yn seiliedig ar asesiad o sefyllfaoedd cymhleth ac ar wybodaeth am y plentyn a'r teulu
4. gweithio mewn partneriaeth â bydwragedd a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol ac eilaidd eraill, gwasanaethau ac asiantaethau yn ystod y cyfnod amenedigol a dyddiau cyntaf bywyd y plentyn i sicrhau cysondeb a dilyniant mewn gofal i rieni a gofalwyr, a phontio esmwyth rhwng gwasanaethau bydwragedd ac ymwelwyr iechyd
5. gweithio mewn partneriaeth â nyrsys ysgol i sicrhau bod pontio'r cymorth ar gyfer y plentyn rhwng yr ymwelydd iechyd a'r gwasanaeth nyrs ysgol yn bositif, di-dor ac effeithiol.

## Nyrsio iechyd galwedigaethol

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs iechyd galwedigaethol SCPHN yn gallu:

1. triongli ac arfarnu data proffilio sefydliadol a gweithlu i sicrhau adnoddau i ddatblygu a chyflawni iechyd galwedigaethol a llesiant cyflogeion
2. creu protocolau casglu, adalw a lledaenu data a gwybodaeth i wella ymarfer nyrsio iechyd galwedigaethol
3. datblygu a hyrwyddo protocolau a strategaethau arloesol, wedi'u llywio gan dystiolaeth sydd yn alluog i arwain gwasanaeth nyrsio iechyd galwedigaethol diogel ac effeithiol
4. dylanwadu ar bolisïau a strategaethau sefydliadol ar gyfer iechyd a llesiant cyflogeion sy'n gysylltiedig ag agendâu a strategaethau iechyd cyhoeddus cenedlaethol a rhyngwladol
5. cymhwyso syniadau busnes yn feirniadol i ddatblygu a hybu mentrau iechyd a llesiant galwedigaethol seiliedig ar dystiolaeth sy'n ystyried adnoddau economaidd ac aneconomaidd
6. meintioli a chymhwyso effaith bositif ymyriadau iechyd galwedigaethol ar dargedau a chanlyniadau busnes.

## Nyrsio ysgol

### Ar adeg cofrestru, bydd nyrs ysgol SCPHN yn gallu:

1. cyfuno data a gwybodaeth am flaenoriaethau iechyd amgylcheddau'r cartref, yr ysgol a'r gymuned a defnyddio crebwyll proffesiynol i benderfynu sut y gellir defnyddio hyn i gael effaith bositif ar iechyd a llesiant unigolion a chymuned y boblogaeth oedran ysgol
2. eiriol ar ran plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau iechyd cyhoeddus, gan sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, hybu cyd-gynhyrchu, cyd-ddylunio a datblygiad ar lefelau gwasanaeth cyffredinol, wedi'u targedu ac arbenigol
3. dylunio ac arwain gwasanaethau nyrsio ysgol seiliedig ar dystiolaeth, ymgyrchoedd addysgol ac ymyriadau wedi'u cyd-gynhyrchu sy'n cyd-fynd â mentrau iechyd cyhoeddus rhanbarthol a chenedlaethol i ddiogelu a hybu iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
4. defnyddio arbenigedd arbenigol a gwybodaeth, sgiliau a thystiolaeth iechyd cyhoeddus mewn cyfarfodydd a gwrandawladau a chydweithredu amlasiantaethol i ddylanwadu ac eiriol dros ddiogelwch a llesiant plant a phobl ifanc
5. cofnodi profiadau byw a bodoli plant a phobl ifanc y genhedlaeth hon a gwerthuso sut mae hyn yn dylanwadu ac yn llywio ymarfer arbenigol y presennol a'r dyfodol, penderfyniadau polisi a dyluniad gwasanaethau

6. hybu gwelededd gwasanaethau nyrsys ysgol a sicrhau eu bod yn hygyrch drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, teuluoedd, staff ysgolion, gweithwyr proffesiynol eraill a mudiadau gwirfoddol gyda dulliau a sgiliau sy'n cydnabod ac yn parchu preifatrwydd ac urddas plant a phobl ifanc pan fyddant yn cael cymorth ac yn defnyddio gwasanaethau
7. dadansoddi'n feirniadol y cyfleoedd, y buddiannau a'r risgiau i wasanaethau nyrsys ysgol wrth gyfathrebu â phlant a phobl ifanc wyneb yn wyneb a thrwy gyfryngau cymdeithasol a phlatfformau rhithiol.

# Geirfa

---

**Asedau cymunedol:** adnoddau y gellir eu defnyddio i gyfrannu at ddatblygu a gwella iechyd a llesiant lleol. Gallant gynnwys pobl a'u gwybodaeth, sgiliau, rhwydweithiau a pherthnasoedd, strwythurau ffisegol, gwasanaethau lleol, elusennau, busnesau a chronfeydd.

**Asesiad cyfannol:** casglu, dadansoddi a didoli ffynonellau niferus o arsylwadau a gwybodaeth am unigolyn neu bobl i lywio ymyriadau i wella iechyd. Mae'r pwyslais ar yr unigolyn cyflawn, nid ar salwch posibl neu wirioneddol yn unig.

**Bioseicogymdeithasol:** model sy'n tybio bod yn rhaid ystyried ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol i ddeall clefydau, salwch ac iechyd.

**Bod heb waith:** gall bod heb waith neu gyflogaeth gyflogedig, gael ei ymestyn i gynnwys pobl nad ydynt yn gallu gweithio neu gael eu cyflogi o ganlyniad i anabledd, cyfrifoldebau gofal, eu bod yn fyfyrwyr neu bensiywyr.

**Canolbwyntio ar yr unigolyn:** dull lle mae'r unigolyn yn ganolog i'r prosesau penderfynu a dyluniad eu hanghenion iechyd a gofal, eu cynllun gofal a thriniaeth nyrsio iechyd cyhoeddus. Yng nghyd-destun iechyd cyhoeddus gall hyn hefyd gyfeirio at wasanaethau iechyd cyhoeddus.

**Cymhwysedd diwylliannol:** yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd i bobl sy'n barchus, ymatebol ac sy'n anrhydeddu anghenion diwylliannol poblogaethau amrywiol.

**Ffactorau strwythurol-gymdeithasol:** yr amgylchedd cymdeithasol, yr amgylchedd ffisegol, gwasanaethau iechyd, a ffactorau strwythurol a chymdeithasol a all ddylanwadu ar iechyd.

**Gallu i weithio:** sylw i iechyd pobl a'u gallu i weithio.

**Gwerth a rennir:** ymwybyddiaeth o ymddygiadau ac agweddau tuag at iechyd a chydabod bod gan unigolion, teuluoedd, y gweithle, cymunedau a phoblogaethau rôl i wella iechyd i bawb.

**Hierarchaeth rheolaethau:** dull cam wrth gam i ddileu neu leihau risgiau, gan sgorio rheolaethau risg o'r lefel amddiffyniad a dibynadwyedd uchaf i'r amddiffyniad isaf a lleiaf dibynadwy.

**Hunan-effeithiolrwydd:** cred yng ngallu'r hunan i drefnu ac i gymryd camau a allai ddylanwadu ar fabwysiadu a chynnal ymddygiad hybu iechyd.

**Nodau datblygu cynaliadwy:** datblygiad sefydliadau, seilwaith a gwasanaethau i roi diwedd ar dlodi a gwarchod yr amgylchedd, nodau sy'n mynd y tu hwnt i iechyd a llesiant a nodwyd gan y Cenhedloedd Unedig [www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/](http://www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/)

**Rhagfarn ddiarwybod:** agweddau a stereoteipiau sylfaenol y mae pobl yn eu priodoli'n ddiarwybod i unigolyn neu grŵp arall o bobl sy'n effeithio ar sut maent yn deall ac yn ymgysylltu â phobl a grwpiau. Pan fydd yn digwydd yn achos dosbarth cymdeithasol, hil, ethnigrwydd, credoau crefyddol, rhywedd a chenedligrwydd gall rhagfarn ddiarwybod gael canlyniadau negyddol.

**Ymyriadau seiliedig ar le:** darparwyr gwasanaeth, cymunedau a phartneriaid dinesig sy'n gweithio â'i gilydd i wella iechyd a gofal i'r poblogaethau a wasanaethir ganddynt.



## Rôl y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth

### Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Ein gweledigaeth yw nyrso a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron i 725,000 o weithwyr nyrso a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Rheoleiddio yw ein rôl graidd. Yn gyntaf, rydyn ni'n hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrso a bydwreigiaeth ledled y DU, a chymdeithion nyrso yn Lloegr. Yn ail, rydyn ni'n cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio pan fydd gofal nyrso neu ofal bydwreigiaeth yn mynd o chwith – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn.

I reoleiddio'n dda, rydym yn cefnogi ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydyn ni'n creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydyn ni'n gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn caniatáu i ni ddylanwadu ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydyn ni'n defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

**Cymeradwywyd y safonau hyn gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar (DATE TBC).**